# Safonau Iaith Gymraeg

# Asesu Effaith

Yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisïau/strategaethau a datblygiadau cyrsiau ar:

- Y cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'r rhestr wirio ganlynol wedi cael ei datblygu er mwyn eich cynorthwyo i gofnodi sut rydych wedi dod i benderfyniad ynglŷn ag effaith polisi/strategaeth rydych chi'n gyfrifol amdano/amdani ar y Gymraeg yn y Brifysgol. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff , trafodaethau mewn grwpiau tasg, ymgynghori â myfyrwyr, staff a Chanolfan Bedwyr.

## Code 11: Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl

'Datblygwyd y Cod ochr yn ochr â pholisïau ar draws y sefydliad a dylid ei ddarllen a'i gymhwyso ar y cyd â'r holl bolisïau allweddol eraill, gan gynnwys Cynllun yr Iaith Gymraeg.' (t3)

---

**Staffio**

**Pa effaith fydd y polisi/strategaeth yn ei gael ar gapasiti staffio dwyieithog y Brifysgol?**

Potensial i gynyddu'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg X

Tystiolaeth: Mae'r Cod yn nodi: 'Bydd y brifysgol yn sicrhau bod digon o adnoddau i gyflawni gofynion y Gwasanaethau Anabledd, gan gydnabod y rhan allweddol y maent yn ei chwarae mewn ymgorffori cynhwysiant ar draws y sefydliad a sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi yn eu lle.'

Mae pob tîm yn y Gwasanaethau Anabledd yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Mae'r staff dwyieithog yn cynnwys:

- Yr holl staff gweinyddol
- Cynghorwr Iechyd Meddwl 1.0 CALl
- Cynghorwr Anabledd 0.6 CALl
- Tiwtor Arbenigol 0.7 CALl
- Asesydd Anghenion Astudio (Canolfan Access) 0.2 CALl
- Caiff staff ar gontractau 'dim oriau', gan gynnwys mentoriaid arbenigol dwyieithog, ysgrifenwyr nodiadau a chynorthwywyr ymarferol eu recriwtio ar sail 'yn ôl yr angen'.

Potensial i leihau'r nifer o staff sy'n siarad Cymraeg ☐

Tystiolaeth: ____________________________________________

Ddim yn berthnasol: ☐

Os oes posibilrwydd y bydd y polisi/strategaeth yn lleihau'r nifer o siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff, rhowch amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i lunio/newid y polisi/strategaeth fel nad yw'n cael effaith niweidiol:

______________________________________________________________________________

**Defnyddio'r Gymraeg**

**Pa effaith fydd y polisi/strategaeth yn ei gael ar y cyfleodd i fyfyrwyr, staff a/neu'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg?**

Potensial i gynyddu'r cyfleodd X

Tystiolaeth: Gweler 'Staffio' uchod. Yn unol â pholisi Safonau'r Gymraeg a Gwasanaethau Myfyrwyr, mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hannog yn weithredol.

Potensial i leihau'r cyfleodd ☐

Tystiolaeth: ____________________________________________

Ddim yn berthnasol ☐

Os oes gan y polisi/strategaeth y potensial i gael effaith negyddol ar y cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg, rhowch amlinelliad o'r camau sy'n cael eu cymryd i lunio/newid y polisi/strategaeth fel nad yw'n cael effaith niweidiol:

________________________________________________

**Cryfhau'r cyfleodd i astudio drwy'r Gymraeg**

**Ydy'r polisi/strategaeth/datblygiad cwrs yn gwella'r cyfleodd sydd ar gael i fyfyrwyr i astudio drwy'r Gymraeg?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn berthnasol X

Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ystyried sut y gallai'r polisi/strategaeth/datblygiad cwrs wella'r cyfleodd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr?

___________________________________________

Carolyn Donaldson-Hughes

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

26/10/2020